



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion?

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael er mwyn gwella deilliannau dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM), dysgwyr cymwys mewn lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar lle mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno, a phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Ei nod yw goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyrraedd eu potensial llawn. Bydd elfen y Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n cefnogi dysgwyr sy'n derbyn gofal o fewn agenda gwella'r ysgol yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan y consortia addysg rhanbarthol.

Sut caiff arian y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal ei weinyddu?

Dylai'r cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg orfodol gael ei ddefnyddio gan y consortia addysg rhanbarthol i ddarparu ymyriadau wedi'u targedu'n well a hyblyg mewn ffordd strategol yn rhanbarthol. Mae hyblygrwydd wedi ei gynnwys yn y telerau ac amodau i alluogi i'r cyllid hefyd gefnogi ymyriadau wedi eu hanelu at blant a fu'n derbyn gofal sydd wedi cael eu mabwysiadu o ofal neu sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Mae'n dderbyniol i gonsortia ddatblygu a gweithredu ymyriadau sy'n cael effaith fuddiol ar **bob** plentyn - ac yn enwedig y rhai a allai fod angen cymorth ychwanegol oherwydd eu bod nhw wedi profi colled, trawma, esgeulustod neu gamdriniaeth o bosibl - ond y disgwyliad yw y byddan nhw fwyaf o fudd o bosibl i blant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal.

Dylai consortia ystyried y gwerth ychwanegol a ddaw yn sgil cyllid a buddsoddiadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion, ac ni ddylai frigidorri cyllid i gynnal swyddi parhaol a/neu statudol mewn perthynas â gweithgarwch craidd ysgol nac awdurdod lleol. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dalu costau cadw cydlynedd arweiniol ym mhob rhanbarth sydd â ffocws ac arbenigedd penodol i weithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglen gytûn a strategol o waith ar lefel ranbarthol.

Disgwylir i gonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion a phartneriaid eraill weithio ar y cyd i ddatblygu ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi canlyniadau addysgol gwell dysgwyr ac i sicrhau eu bod nhw'n cyrraedd eu llawn botensial. Dylai'r dull hwn fod o fewn cynllun cydlynol y cytunwyd arno'n rhanbarthol sy'n sicrhau fod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei weinyddu i gefnogi gweithgareddau y cytunwyd arnyn nhw, gan sicrhau nad oes dyblygu artiffisial rhwng gweithgareddau awdurdodau lleol unigol na chreu biwrocratiaeth ddiangen.

Bydd angen ystyried pob cynnig o safbwynt cynaliadwyedd y tu hwnt i oes y grant. Rhaid i gonsortia gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â chynlluniau cymorth Plant sy'n Derbyn Gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion a gyflwynwyd ar gyfer 2016-17, gan ystyried y camau gweithredu dan y penawdau:

- blaenoriaethau

- canlyniadau
- targedau
- gweithgarwch
- cynllunio rhanbarthol

Sut mae'r trefniadau'n gweithio ar lefel ymarferol?

Mae'r dull yn galluogi consortia, drwy weithio ag ysgolion, awdurdodau lleol (yn enwedig, ond nid yr awdurdodau yn unig), cydgysylltwyr plant sy'n derbyn gofal ym maes addysg ac amrywiaeth o bartneriaid eraill i bennu ymyraethau mwy effeithiol, strategol, er mwyn cefnogi'r trefniadau addysgol, beth bynnag fo'r newidiadau o ran gofal neu ysgol.

Pam mae plant sy'n cael eu mabwysiadu ar ôl derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn sgil gorchmynion llys penodol yn gymwys i gael y Grant Amddifadedd Disgyblion?

Mae mwyafrif helaeth y plant sydd wedi bod drwy'r system ofal wedi profi lefelau o drawma, camdriniaeth, esgeulustod a cholled a allai gael effaith andwyol ar eu gallu i ffynnu mewn amgylchedd ysgol.

Mae'n bwysig bod y plant hyn yn cael cymorth emosiynol, cymdeithasol ac addysgol drwy gefnogaeth benodol er mwyn gwella eu cyrhaeddiad a mynd i'r afael â'u hanghenion ehangach.

Yn yr un modd, rydym yn cydnabod fod plant eraill - nad ydyn nhw o bosibl wedi mynd i mewn i'r system ofal - ond a fydd yn sgil eu profiadau bywyd, serch hynny, yn elwa'n anghymesur ar y mathau o ymyriadau a fydd yn cefnogi plant sy'n cael eu mabwysiadu ac sy'n derbyn gofal yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae ymyriadau yn cael eu datblygu i gefnogi agenda gwella'r ysgol a lle mae ymyriadau yn canolbwyntio ar ymagwedd eang at welliant a lles disgyblion

Faint o gyllid sydd ar gael?

Bydd y dyraniadau i gonsortia yn cael eu cyfrifo ar sail nifer y plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal. Bydd hyn yn darparu digon o adnoddau ar gyfer nodi ymyraethau strategol er mwyn cefnogi eu hanghenion addysgol. Yn 2016-2017, ar gyfer pob plentyn rhwng 4 a 15 oed a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol fel y nodir yn nata Gweithgarwch Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol (SSDA), bydd y consortia yn cael £1,150 drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Lle gallaf gael gwybodaeth am y ffordd orau o ddefnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion?

Gallwch gysylltu â'ch cydgysylltydd Grant Amddifadedd Disgyblion strategol yn y consortiwm i gael gwybodaeth am sut mae'r rhanbarth yn cefnogi'r broses o wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Neu, gallwch gysylltu â'ch cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn eich awdurdod lleol i gael gwybodaeth sy'n fwy lleol. Darperir manylion cyswllt yn **atodiad 1**.

Sut dylai consortia reoli'r gwahaniaethau o ran niferoedd y plant sy'n derbyn gofal ar adeg eu cyfrif a'r hyn y mae'r arian yn seiliedig arno, a gwir niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn eu hardaloedd?

Rydym yn sylweddoli y bydd gwir niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn newid rhwng adeg casglu'r data a'r cyfnod cyllido, ac y gallant hefyd newid yn ystod y cyfnod cyllido. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl y bydd hyn yn creu problemau mawr ac mae'n bwysig bod y trefniadau hyn yn cael eu symleiddio er mwyn lleihau gwaith gweinyddu a biwrocratiaeth ddiangen.

Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn cael gofal ac addysg y tu allan i'r sir, a fydd y consortiwm sy'n lletya yn trosglwyddo arian i gonsortiwm rhanbarthol yr ardal y mae'r plentyn yn symud iddi a lle caiff ei addysgu?

Nid oes arian yn cael ei glustnodi ar gyfer pob plentyn, ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol iawn, dylai pob consortiwm gadw ei ddyraniad cyllid gwreiddiol yn hytrach na throsglwyddo symiau bach o arian yn sgil symudiadau ymysg disgyblion unigol.

Mewn achosion lle bydd plentyn yn symud o ranbarth, dylai'r consortiwm sy'n ei dderbyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu a chynnal y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer y plentyn.

Bydd consortia, gan weithio gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol, yn datblygu trefniadau dwyochrog fel rhan o'u cynllunio strategol i sicrhau, pan fydd plentyn yn symud y tu allan i'r ardal consortia, eu bod nhw'n parhau i gael eu cefnogi ble bynnag maen nhw'n byw neu'n cael eu haddysgu os ydyn nhw angen cefnogaeth.

Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn dilyn cwricwlwm amgen, naill ai o fewn ardal y consortiwm neu'r tu allan iddi, a ddylid trosglwyddo'r arian i'r sefydliad addysg lle mae'r plentyn hwnnw wedi cofrestru?

Na ddylid. Nid oes arian yn cael ei glustnodi ar gyfer pob plentyn ac ni fydd yr arian yn dilyn y plentyn i sefydliad addysg newydd, ond dylai'r consortiwm sicrhau bod y plentyn yn parhau i gael y gefnogaeth addysgol briodol.

Pan gaiff plant sy'n derbyn gofal eu rhoi mewn lleoliadau preswyl preifat (nad ydyn nhw'n cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol) y mae Awdurdodau Lleol eisoes yn talu amdany'n nhw, a ddylid trosglwyddo'r cyllid i'r darparwr?

Na ddylid. Mae'r trefniadau i ddarparu gwasanaethau'n rhanbarthol wedi rhoi terfyn ar yr arfer hwn. Efallai y bydd enghreifftiau lle mai'r consortiwm fydd yn darparu'r gwasanaeth, yn hytrach na'r darparwr.

A yw Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gymwys i gael arian yn sgil y Grant Amddifadedd Disgyblion?

Mae elfen eFSM y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei rhoi i gonsortia ar sail nifer y disgyblion a oedd yn eFSM adeg y cyfrifiad. Yn 2016-17 bydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Yn achos dysgwyr

wedi eu cofrestru'n ddeuol, bydd y grant yn cael ei dalu i'r ysgol neu'r sefydliad a gofrestrwyd fel y prif ddarparwr. Ni fydd cyllid yn cael ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn. Atgoffir ymarferwyr bod modd i ysgolion/darparwyr gronni'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddarparu ymyriadau y gellir eu rhannu.

O ran unrhyw blentyn o Loegr sy'n derbyn gofal ac sy'n cael gofal ac addysg yng Nghymru, a ddylai'r awdurdod lleol yn Lloegr, sef y rhiant corfforaethol, drosglwyddo ei ddyraniad Premiwm Disgybl ar gyfer y plant hynny i gonsortia perthnasol?

Pan fydd plentyn yn symud o awdurdod lleol yn Lloegr i ysgol yng Nghymru, cyfrifoldeb y consortia addysg a'r awdurdod lleol yw dod i gytundeb ynghylch trosglwyddo arian Premiwm Disgybl. Ar hyn o bryd, nid oes trefniant ffurfiol rhwng yr Adran Addysg yn Lloegr ac Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru o ran trosglwyddo'r Grant Amddifadedd Disgyblion neu'r Premiwm Disgybl o'r naill gorff i'r llall.

O ran unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal o Gymru ac sy'n cael gofal ac addysg mewn ysgolion yn Lloegr, a ddylai dyraniad y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer y plentyn hwnnw gael ei drosglwyddo dros y ffin?

Pan fydd plentyn o awdurdod lleol yng Nghymru yn symud i sefydliad yn Lloegr, penderfyniad yr awdurdod lleol a'r consortiwm perthnasol yw dod i gytundeb ynghylch trosglwyddo arian y Grant Amddifadedd Disgyblion. Ar hyn o bryd, nid oes trefniant ffurfiol rhwng yr Adran Addysg yn Lloegr ac Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru o ran trosglwyddo'r Grant Amddifadedd Disgyblion na'r Premiwm Disgybl o'r naill gorff i'r llall. Yn unol â threfniadau o'r fath, nid oes disgwyl y bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru yn cyfateb i gyfradd y Premiwm Disgybl.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn amrywio yn ystod y flwyddyn. Os bydd plant yn symud rhwng ysgolion o fewn ardal y consortia neu'r tu allan iddi yn ystod y flwyddyn, a fydd yr arian yn eu dilyn?

Na fydd. Nid oes arian yn cael ei glustnodi ar gyfer pob plentyn ac ni fydd yn dilyn y plentyn pan fydd yn newid ysgol. Dylai'r penderfyniad i alluogi consortia i weinyddu'r grant sicrhau bod gwasanaethau mwy effeithiol yn cael eu darparu ar lefel ranbarthol, yn hytrach nag ar lefel ysgolion. Mae'n bwysig symleiddio'r trefniadau er mwyn lleihau gwaith gweinyddu a biwrocratiaeth ddiangen.

A fydd yr arian yn cael ei addasu ar ganol y flwyddyn er mwyn ystyried unrhyw blant newydd sy'n derbyn gofal a fydd yn ymuno â'r system ym mis Medi?

Na fydd. Ar hyn o bryd, nid yw'r data yn cael ei addasu ar ganol y flwyddyn er mwyn adlewyrchu unrhyw blant sy'n ymuno â'r system neu'n ei gadael. Mae'n rhaid i gydgyssylltwyr y Grant Amddifadedd Disgyblion, awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid eraill gydweithio o fewn dyraniad y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Pam mai data'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA) sy'n cael ei ddefnyddio i bennu dyraniadau ar gyfer elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion yn hytrach na data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (PLASC)? Mae data'r SSDA wedi ei gasglu ers dros flwyddyn ond mae data'r PLASC ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Caiff data'r SSDA ei ddefnyddio er mwyn ceisio sicrhau sylfaen mor eang â phosibl ar gyfer dyrannu'r grant. Mae'n cynnwys cyfanswm nifer y plant rhwng 4 a 15 oed sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol. Mae data'r PLASC wedi'i gyfyngu i leoliadau ysgol ac nid yw'n gynrychiolaeth gywir o wir nifer y plant sy'n derbyn gofal. Caiff y ddwy set o ddata eu cofnodi ar adeg benodol a dim ond sylfaen ydyn nhw ar gyfer cyfrifo dyraniad i gonsortia er mwyn sicrhau digon o adnoddau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal. Mae'n hanfodol bod y consortia, yr awdurdodau lleol ac eraill yn cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r arian yn y ffordd orau bosibl.

Ar gyfer beth gellir defnyddio'r cyllid?

Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn darparu arian grant wedi'i dargedu er mwyn cefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sy'n derbyn gofal er mwyn goresgyn y rhwystrau a allai eu hatal rhag cyflawni eu potensial academaidd. Mae'n rhan o agenda gwella'r ysgol ac ni ellir ei ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch craidd ysgol neu gymryd lle gwasanaethau neu hawliau sy'n bodoli'n barod y dylai ysgolion eu darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion e.e. ni all gymryd lle cyllid AAA.

Dylid ei ddefnyddio fel ychwanegiad at arfer cyfredol ac i ddarparu gwasanaethau strategol i gefnogi disgyblion. Dylai disgyblion sy'n byw ar draws y rhanbarth gael yr un mynediad at wasanaethau ym mha bynnag awdurdod maen nhw'n byw.

Bydd angen ystyried yr holl gynigion o safbwynt cynaliadwyedd y tu hwnt i oes y grant.

Sut caiff effeithiolrwydd yr arian ychwanegol ei fesur?

Mae'n rhaid i gonsortia allu dangos bod y bwllch mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a phob disgybl arall wedi lleihau drwy gyflawni'r trefniadau ychwanegol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gonsortia gyflwyno adroddiad drwy werthuso a fydd yn cynnwys dadansoddiad o sut mae'r gwariant wedi effeithio ar ddeilliannau addysgol.

**Y Tîm Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Mai 2016**

Atodiad 1

Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbynn Gofal - Manylion Cyswllt

Rhanbarth Gogledd Cymru (GWE)

Enw	Awdurdod Lleol
Chris Moore Chris.moore@wreccsam.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Eilir Jones Eilir.jones@conwy.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Ceri Ellis Ceri.ellis@sirddinbych.gov.uk	Cyngor Sir Ddinbych
Kathryn Packer Kathryn.packer@sirddinbych.gov.uk	Cyngor Sir Ddinbych
Heulwen Owen heulwenowen@ynysmon.gov.uk	Cyngor Sir Ynys Môn
David Messum David.messum@flintshire.gov.uk	Cyngor Sir y Fflint
Alwyn Jones alwynjones@gwynedd.gov.uk	Cyngor Gwynedd

De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW)

Enw	Awdurdod Lleol
Sue Phillips Sue.phillips@swansea.gov.uk	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Nicky Sneezum Nicky.sneezum@neath-porttalbot.gov.uk	Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
Sian Owen SRowen@sirgar.gov.uk	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wyn Harries Wyn.harries@pembrokeshire.gov.uk	Cyngor Sir Penfro
Steve Adams	Cyngor Sir Powys

Steve.adams@powys.gov.uk	
Jane McDonnell Jane.mcdonnell@powys.gov.uk	Cyngor Sir Powys
Catrin Pugh Catrin.pugh@ceredigion.gov.uk	Cyngor Sir Ceredigion
Catrin Jones Catrin.e.jones@ceredigion.gov.uk	Cyngor Sir Ceredigion

Rhanbarth Canol De Cymru

Enw	Awdurdod Lleol
Nicola Holder Nicola.holder@cardiff.gov.uk	Cyngor Caerdydd
Beverley Jones Susan.b.jones@bridgend.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Martine Coles mncoles@valeofglamorgan.gov.uk	Cyngor Bro Morgannwg
Hannah Bevan Hannah.m.bevan@rctcbc.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
<u>Lisa Beattie</u> Lisa.beattie@merthyr.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Rhanbarth Gwent (EAS)

Enw	Awdurdod Lleol
Claire Lilley Claire.lilley@newport.gov.uk	Cyngor Dinas Casnewydd
Wendy Hoskins Wendy.hoskins@newport.gov.uk	Cyngor Dinas Casnewydd
Donna Lewis Donna.lewis@torfaen.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Richard Austin richardaustin@monmouthshire.gov.uk	Cyngor Sir Fynwy
Helen West westhe@caerphilly.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Sarah Dixon Sarah.dixon@blaenau-gwent.gov.uk	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
---	--

Cydgysylltwyr Grant Amddifadedd Disgyblion - Manylion Cyswllt

Enw	Sefydliad
Rob Jewell robertashleyjewell@gwynedd.gov.uk	Rhanbarth Gogledd Cymru (GWE)
Siwan Meirion siwanmeirion@gwe.org.uk	Rhanbarth Gogledd Cymru (GWE)
Rhys Hughes rhyswardhughes@gwe.org.uk	Rhanbarth Gogledd Cymru (GWE)
Matthew Holder Matthew.holder@pembrokeshire.gov.uk	Rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW)
Cressy Morgan cressy.morgan@erw.org.uk	Rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW)
Ruth Lee Ruth.lee@erw.org.uk	Rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW)
Huw Duggan Huw.duggan@cscjes.org.uk	Rhanbarth Canol De Cymru
Martine Coles Martine.coles@cscjes.org.uk	Rhanbarth Canol De Cymru
Kevin Palmer Kevin.palmer@sewaleseas.org.uk	Rhanbarth Gwent (EAS)
Geraint Willington Geraint.willington@sewaleseas.org.uk	Rhanbarth Gwent (EAS)
Peter Rabbett Prabb34834@aol.com	Rhanbarth Gwent (EAS)
Donna Lewis Donna.lewis@torfaen.gov.uk	Rhanbarth Gwent (EAS)